

Gofynion Casgliadau gwastraff ar wahan: Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

Cyffredinol

Beth yw'r gofynion o safbwynt 'casgliadau ar wahân' ar gyfer gwastraff?

Yn ôl y gofynion, bydd yn rhaid i gasglwyr neu gludwyr gwastraff, gan gynnwys cwmnïau preifat, mentrau cymdeithasol ac Awdurdodau Lleol, ddarparu casgliadau ar wahân i'w cwsmeriaid ar gyfer y pedwar 'deunydd penodedig'. Golyga hyn y bydd yn rhaid didoli'r ffrydiau gwastraff a gynhwysir yn y gofynion yn ôl math a'u rhoi mewn cynwysyddion ar wahân i'w casglu. Mae hyn yn berthnasol i wastraff o bob math o bob ffynhonnell, diwydiannau (gan gynnwys adeiladu a dymchwel), masnach (gan gynnwys manwerthu, lletygarwch a swyddfeydd) a thai.

Rhaid i'r cludwr neu'r casglwr gwastraff sy'n dymuno casglu unrhyw un o'r pedwar deunydd gyda'i gilydd mewn casgliad cymysg ddangos ei fod wedi cynnal asesiad. Dylai'r asesiad hwn ddangos bod y deunyddiau ailgylchadwy a gesglir a chynnyrch y broses ddioli ddilynol yn cyrraedd yr ansawdd angenrheidiol ar gyfer y diwydiannau ailbroseu sy'n eu derbyn ac nad yw'n ymarferol yn dechnegol, yn amgylcheddol nac yn economaidd iddo gasglu papur, gwydr, plastig a metelau gwastraff ar wahân (dylid seilio'r asesiad ar y prawf "Rheidrwydd/TEEP").

Pa ddeunyddiau a gynhwysir dan y Rheoliadau newydd?

Y deunyddiau penodedig yw metel, plastig, gwydr a phapur. Fodd bynnag, ar gyfer ambell is-gategori o ddeunyddiau (e.e. gwydr Pyrex), nid oes dewisiadau ailgylchu i'w cael ar hyn o bryd. Mewn achosion o'r fath, ni ddisgwylir i gynhyrchwyr wahanu'r deunyddiau hyn oddi wrth y gwastraff sy'n weddill.

Pam y mae'r gofynion hyn wedi'u cyflwyno?

Gwahanu gwastraff yw'r ffordd orau i hyrwyddo ailgylchu oherwydd mae'n sicrhau bod deunyddiau ailgylchadwy ddim yn halogi eu gilydd. Bydd y Rheoliadau hyn o gymorth i ddiogelu gwerth unrhyw beth rydym yn ei ddefnyddio ac yna ei daflu ac, os yn bosibl, i'w gadw a'i ddefnyddio eto yn ein heconomi. Bydd hynny hefyd yn helpu Cymru i gyrraedd ei thargedau o ailgylchu 70% o'r gwastraff a 90% o'r diwydiant adeiladu gan waredu dim ond 30% o wastraff trwy tirlenwi neu llosgi / ynni erbyn 2025.

A oes yna *de minimis* (h.y. swm minimal nad oes yn rhaid ichi gydymffurfio os nad yw'n cael ei gyrraedd)?

Does dim *de-minimis*. Os ydych yn casglu gwastraff mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn cynnig gwasanaeth casglu'r deunyddiau allweddol ar wahân.

A yw ffilm blastig yn cael ei gynnwys yn y gofynion casglu ar wahân?

Gan fod ffilm yn ffurf o blastig, mae'n cael ei gynnwys yn y gofynion casglu ar wahân. Bydd yn rhaid i'r cludydd gwastraff ystyried a yw hi'n Ymarferol yn Dechnegol, Amgylcheddol neu'n Economaidd i'w gasglu (gweler y gwybodaeth ar 'asesiadau Rheidrwydd/TEEP' islaw).

Pwy fydd yn gorfodi'r gofynion?

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff sy'n gorfodi'r rheoliadau hyn.

Cynhyrchwyr Gwastraff

Beth yw cynhyrchydd gwastraff?

Unrhyw berson y mae'i weithgareddau'n cynhyrchu gwastraff (cynhyrchydd gwastraff gwreiddiol) neu unrhyw un sy'n gwneud gwaith cyn-brosesu, cymysgu neu waith arall sy'n newid natur neu gyfansoddiad y gwastraff hwnnw.

Beth yw cyfrifoldeb y cynhyrchydd?

Fel cynhyrchydd gwastraff mae gennych 'ddyletswydd cyfreithiol' i gymryd yr holl gamau rhesymol i ddefnyddio'r 'hierarchaeth gwastraff' – gweler canllawiau Llywodraeth Cymru ar hierarchaeth gwastraff.

http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epg/waste_recycling/publication/hierarchyguide/?skip=1&lang=cy

A oes unrhyw beth a fyddai'n rhwystro busnesau rhag rhannu adnoddau cadw gwastraff?

Mae rhannu gwasanaethau gwastraff yn gallu arwain at lai o gostau rheoli gwastraff a gallu ei gadw mewn llai o le. Ond mae'n rhaid dal i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol o Ddyletswydd Gofal.

Fel busnes bach rwyf yn aml yn cludo fy ngwastraff yn fy fan wen neu lorri i safle mwynder dinesig yr awdurdod lleol sy'n derbyn gwastraff masnach ac rwy'n didoli'r deunyddiau i'r gwahanol sgiopiau sydd yno, a fyddai hynny'n cydymffurfio?

Gallai hynny gydymffurfio os gallwch sicrhau nad yw'r deunyddiau'n cael eu halogi gyda gwastraff nad yw'n bosibl ei ailgylchu wrth eu cludo.

Mae fy landlord yn cymryd gofal o'm trefniadau gwastraff. A ydw i'n cael fy effeithio?

Ydych, fe fyddwch yn cael eich effeithio. Os ydych yn rhentu swyddfa gyda gwasanaeth neu eiddo sy'n cael ei redeg gan reolwr eiddo masnachol, dylai'ch landlord roi gwybod i chi am unrhyw newidiadau y dylech eu gwneud ynghylch casglu eich gwastraff.

Swyddogaeth Cwmni Rheoli Adnoddau?

Gallai cwmni rheoli adnoddau drefnu gwasanaethau rheoli gwastraff ar gyfer eiddo cyfan. Mae'n rhaid cael trefniadau digonol ar gyfer storio, trosglwyddo awdurdodedig

a rheoli deunyddiau i gydymffurfio â'r Dyletswydd Gofal ac â'r cyfrifoldebau casglu ar wahân.

Sut allaf i gael digon o le i storio'r biniau ychwanegol ar gyfer ailgylchu?

Ni fydd eich busnes yn cynhyrchu rhagor o wastraff, yn hytrach, byddwch yn trefnu eich gwastraff – gan wahanu deunyddiau allweddol i'w hailgylchu. Dylech drafod gyda'ch cwmni rheoli gwastraff sut i gael y gorau o'ch lle cadw.

Cludwyr Gwastraff

A fydd hyn yn effeithio ar Gasgliadau Gwastraff Masnach yr awdurdod lleol?

Bydd. Mae'r rheoliadau'n berthnasol i bob ffynhonnell o wastraff gan gynnwys gwastraff dinesig, masnachol, diwydiannol, adeiladu a dymchwel.

Os ydw i'n casglu deunydd ailgylchu sych mewn cerbyd casglu gwastraff gydag adran arall ar gyfer gwastraff gweddilliol, a fyddai hynny'n cydymffurfio?

Gallai hynny gydymffurfio os gallwch chi sicrhau nad yw'r deunyddiau'n cael eu halogi wrth eu cludo gan wastraff nad yw'n bosibl ei ailgylchu.

Beth fyddai'n digwydd pe byddai cynhyrchydd rwyf yn casglu ei wastraff yn gwrthod didoli'r pedwar deunydd ailgylchu i'r gwahanol fin(iau) rwyf wedi'u darparu?

Dylech ei atgoffa, fel cynhyrchydd gwastraff, fod yn rhaid, o dan ei ddyletswydd gofal, didoli gwastraff er mwyn cydymffurfio â'r gofynion hierarchaeth gwastraff. Rhaid i gynhyrchwyr gwastraff hefyd sicrhau fod unrhyw wastraff sy'n cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi yn cael ei drin o flaen llaw – byddai gwahanu'r deunyddiau hyn o'r gwastraff gweddilliol o'r dechrau yn ffordd o'i drin o flaen llaw.

Sut y dylwn gynnal asesiad Rheidrydd/TEEP?

Dylech ddarllen *'Canllawiau ar Gasglu Gwastraff Papur, Metel, Plastig a Gwydr ar Wahân'* wrth lunio eich asesiad –

http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/publication/guide-on-the-separate-collection-of-waste-paper-metal-plastic-and-glass/?lang=cy

Canllawiau ar fethodoleg addas i ddangos bod yr asesiad i'w gael yn y 'map ffordd WRAP' – oherwydd er mai ar gyfer awdurdodau lleol Lloegr y'u lluniwyd, maent yn cynnig methodoleg addas y gellir ei dilyn yng Nghymru.

<http://www.wrap.org.uk/content/requirements-waste-regulations>

Oes raid i mi gyflwyno fy asesiad TEEP i'w gymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru?

Nac oes, ond byddwn yn disgwyl y byddwch yn cadw tystiolaeth o'r asesiad, efallai y byddwn yn gofyn am gael gweld tystiolaeth ddogfennol honno. Os nad ydych yn casglu'r pedwar deunydd ar wahân h.y. mewn casgliad cyd-gymysg, efallai byddwn yn gofyn i chi sut rydych wedi cynnal y profion ymarferoldeb a rheidrydd.

Gweithredwyr Adnoddau Gwastraff

A yw safleoedd 'danfon' yn cael eu cynnwys yn y rheoliadau hyn?

Ydynt, os yw'r pedwar deunydd gwastraff yn cael eu casglu ar y safleoedd hynny.

Beth ddylwn i ei wneud pe deuai cludydd gwastraff â gwastraff heb ei ddioli i fy adnodd?

Dylech sicrhau fod eich cwsmeriaid yn deall gofynion cyfreithiol casgliadau ar wahân. Mae'n ddyletswydd ar gludydd gwastraff sicrhau fod y pedwar deunydd (gwydr, metel, plastig a phapur) yn cael eu casglu ar wahân ac fel gweithredwr adnodd gwastraff, mae'n ddyletswydd arnoch chi beidio â chymysgu deunyddiau sy'n cael eu casglu ar wahân gyda deunyddiau heb eu casglu ar wahân.